

Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Byddwn yn anfon rhywfaint o'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch i Lywodraeth Cymru. Y wybodaeth hon fydd eich cofnod dysgu a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddir at bum prif ddiben:

1. Swyddogaethau statudol

Caiff y cofnod dysgu a gedwir gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio gan y sefydliadau a restrir isod, neu gan asiantiaid sy'n gweithio ar eu rhan, i gyflawni eu swyddogaethau statudol sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Swyddfa Archwilio Cymru

Mae hynny'n cynnwys ariannu, cynllunio, monitro, archwilio ac arolygu gwaith dysgu.

Defnyddir y cofnod dysgu a gedwir gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu data dienw (lle nad oes modd adnabod dysgwyr unigol) mewn cyhoeddiadau ystadegol blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai cyhoeddiadau gan Ystadegau Gwladol a'r wefan 'StatsCymru' <http://statscymru.cymru.gov.uk/>.

2. Ymchwil, cyfle cyfartal, newyddiaduraeth, budd dilys/swyddogaeth gyhoeddus arall

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi data dienw i drydydd partïon at y dibenion canlynol.

- Monitro cyfle cyfartal – efallai y bydd eich cofnod dysgu yn cynnwys manylion eich rhyw, eich grŵp ethnig ac unrhyw anabledau neu anawsterau dysgu sydd gennych. Ni chaiff y data hwn ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall heblaw at ddiben hybu neu gynnal cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal rhwng pobl sydd o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol, sydd â daliadau crefyddol gwahanol neu sydd â gwahanol raddau o gyflyrau corfforol neu feddyliol.
- Ymchwil – gallai fod yn ymchwil academiaidd neu'n ymchwil ystadegol arall i faes addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi data dienw at y dibenion uchod i'r mathau canlynol o ddefnyddwyr:

- Cyrff y llywodraeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg bellach
- Cyrff yn y sector addysg bellach (gan gynnwys Cyngorau Sgiliau Sector)
- Sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant eraill
- Gyrfa Cymru
- Ymchwilwyr academiaidd a myfyrwyr
- Sefydliadau masnachol (e.e. cwmnïau recriwtio, darparwyr tai, cyflogwyr)
- Undebau
- Cyrff anllywodraethol ac elusennau
- Newyddiadurwyr

3. Cysylltu data

Mewn rhai amgylchiadau bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, ysgolheigion neu sefydliadau ymchwil sy'n gweithio ar ei rhan weld cofnodion dysgu, gan gynnwys dynodyddion personol (megis enwau) am gyfnod cyfyngedig. Unig ddiben hyn fydd ei gwneud yn bosibl i'r cofnod dysgu a gedwir gan Lywodraeth Cymru gael ei gysylltu â ffynhonnell arall (er enghraifft, cofnodion ysgolion) er mwyn gallu cynnal ymchwil ystadegol. Bydd unrhyw gyhoeddiadau ystadegol sy'n seiliedig ar ymchwil o'r fath yn cynnwys data dienw, a bydd yn ofynnol i'r contractwyr lofnodi cytundebau cyfrinachedd mewn perthynas â'r data, dangos bod ganddynt weithdrefnau boddhaol ar gyfer diogelu gwybodaeth, a dinistrio'u copiâu o'r data ar ôl i'r prosiect ymchwil gael ei gwblhau.

4. Cofrestrau etholiadol

Er mwyn cefnogi ymchwil peilot ynghylch pa mor ddefnyddiol yw'r setiau data sydd gan awdurdodau cyhoeddus er mwyn gwneud cofrestrau etholiadol yn fwy cywir a chyflawn, gallai Llywodraeth Cymru rannu eich enw, eich dyddiad geni, eich cyfeiriad a'ch cod post â swyddogion cofrestru etholiadol sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot paru data fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.

5. Gwerthusiadau

Gallai eich manylion cyswllt gael eu rhannu â chontractwyr sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), er mwyn iddynt gynnal cyfweiliadau neu arolygon ymhlith dysgwyr presennol a blaenorol yn rhan o werthusiadau ffurfiol o raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y contractwyr yn cysylltu â sampl o unigolion. Efallai y byddant yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi werthuso'ch profiad personol o weithgarwch dysgu. Os cysylltir â chi, caiff diben y cyfweiliad neu'r arolwg ei esbonio i chi, a byddwch yn cael cyfle i ddweud a ydych am gymryd rhan ai peidio. Dim ond at ddiben cynnal y gwerthusiad y bydd y contractwyr yn defnyddio eich manylion, a byddant yn gwneud hynny'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Caiff eich manylion eu dileu pan fydd y contract gwerthuso wedi'i gwblhau.

Eich hawliau

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hynny, ond ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn un gyflawn:

- Yr hawl i unrhyw ddata personol a gedwir amdanoch gael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon.
- Yr hawl i geisio a chael copiâu o'r data personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru (efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffi fach am hynny), er y gellir cadw rhywfaint o wybodaeth oddi wrthy ch yn gyfreithlon weithiau.
- Yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i rwystro data personol rhag cael ei brosesu os bydd gwneud hynny'n achosi niwed neu ofid.
- Yr hawl i ofyn am gael cywiro gwybodaeth anghywir.

Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwyllo Deddf Diogelu Data 1998, asesu a yw'r modd y caiff eich data personol ei brosesu yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf ai peidio.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y data personol a gesglir a'r defnydd a wneir ohono, ac os oes gennych unrhyw bryderon am gywirdeb data personol neu os ydych am arfer unrhyw hawliau sydd gennych dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dylech gysylltu â Thîm Rheoli Data Llywodraeth Cymru, Ebst:

LLWR@wales.gsi.gov.uk.

- Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: DataProtectionOfficer@wales.gsi.gov.uk.
- Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 01625 545745 neu ar y we yn www.ico.gov.uk.

Caiff pob cais a wneir i Lywodraeth Cymru ddatgelu gwybodaeth (gan gynnwys y wybodaeth yr ydych yn ei darparu ynghylch eich cofnod dysgu) eu hystyried yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ('y Cod') a rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r Cod yn adlewyrchu agwedd Llywodraeth Cymru at lywodraeth agored ac yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan y cyhoedd, p'un a ydynt wedi'u gwneud dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynteu'r Ddeddf Diogelu Data.